# Y Cymedr

Yn y gemau rhagbrofol ar gyfer Ewro 2016, sgoriodd tîm pêl-droed Cymru'r nifer canlynol o goliau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2, | 0, | 2, | 0, | 3, |
| 1, | 1, | 0, | 0, | 2. |



Pa rif fyddai orau i ddisgrifio sawl gôl sgoriodd Cymru yn ystod bob gêm? Pan rydym yn chwilio am rif o'r math yma, rydym yn chwilio am **gyfartaledd** ar gyfer y data. Mae cyfartaledd yn rif sy'n ceisio cynrychioli'r gwerth canolig neu'r gwerth nodweddiadol mewn set o ddata. Mae'r **cymedr** yn enghraifft o gyfartaledd.

**Cyfrifo'r Cymedr**

Er mwyn darganfod cymedr set o ddata:

(1) Darganfyddwch **gyfanswm** yr holl werthoedd data.
(2) **Rhannwch** efo'r nifer o werthoedd data.

Ar gyfer data goliau Cymru, cyfanswm yr holl werthoedd data fyddai

$$2 + 0 + 2 + 0 + 3 + 1 + 1 + 0 + 0 + 2 = 11.$$

Mae'n dilyn bod y cymedr yn $11 \div 10 = 1.1$. Ar gyfartaledd felly, mae Cymru'n sgorio **tua** 1 gôl pob gêm.

**Ymarfer 1**

Ceisiwch ddarganfod y nifer cymedrig o goliau a sgoriwyd gan bob un o'r timau canlynol yng ngemau cyntaf y tymor.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (a) Arsenal | 5, | 0, | 2, | 0, | 4. |
| (b) Chelsea | 0, | 2, | 1, | 2, | 3. |
| (c) Everton | 2, | 1, | 1, | 2, | 0. |
| (ch) Lerpwl | 2, | 3, | 0, | 2, | 1. |
| (d) Manceinion Unedig | 3, | 2, | 3, | 4, | 0. |
| (dd) Tottenham Hotspur | 2, | 0, | 0, | 4, | 1. |



**Ymarfer 2**

Yn Ymarfer 1, gan ba dîm y mae'r nifer cymedrig **mwyaf** o goliau?

**Ymarfer 3**

Dyma'r nifer o goliau y gwnaeth Cymru sgorio yn ystod eu hymgyrch i gyrraedd Cwpan y Byd Qatar 2022.

1, 1, 3, 0, 2, 1, 5, 1, 2, 1

Beth oedd cymedr Cymru yn ystod y gemau hyn?

**Ymarfer 4**

Wrth gymhwyso ar gyfer Ewro 2020, cymedr goliau Cymru yn ystod yr 8 gêm gymhwyso oedd 1.25. Sawl gôl sgoriodd Cymru yn ystod yr 8 gêm yma?

# Atebion

**Ymarfer 1**

(a) Arsenal 11 ÷ 5 = 2.2
(b) Chelsea 8 ÷ 5 = 1.6
(c) Everton 6 ÷ 5 = 1.2
(ch) Lerpwl 8 ÷ 5 = 1.6
(d) Manceinion Unedig 12 ÷ 5 = 2.4
(dd) Tottenham Hotspur 7 ÷ 5 = 1.4

**Ymarfer 2**

Manceinion Unedig

**Ymarfer 3**

17 ÷ 10 = 1.7

**Ymarfer 4**

1.25 × 8 = 10 gôl